



Vulnerability Policy Unit  
Post Point 7.25  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

[mlpaconsultation@justice.gov.uk](mailto:mlpaconsultation@justice.gov.uk)

13 Hydref 2021

Annwyl Syr/Madam,

### **Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Hoffwn wneud sylwadau yng nghyd-destun y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y gwasanaeth diwygiedig arfaethedig. Ni fydd fy sylwadau, felly, yn rhoi barn ar y saith cynnig a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Fy nod yw pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y Gymraeg o'r cychwyn yn eich cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus<sup>1</sup> yn cynnwys y datganiad canlynol:

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae hefyd yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol yn ei gynllun gweithredu (Adran 9):

---

<sup>1</sup> [20180125 DG S Cynllun Iaith 6th Nov 17 EN OPG WLS \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Byddwn yn ystyried y Gymraeg mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. (Cam gweithredu 2)

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaethau digidol sy'n wynebu'r cyhoedd yn y dyfodol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ddiodyn. Fel rhan o hynny, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau Atwrniaeth Arhosol ar gael yn Gymraeg ar y cyfle cyntaf posib. (Cam gweithredu 4)

Nid oes cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori na'r asesiad effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer moderneiddio atwrniaethau arhosol. Fodd bynnag, mewn llythyr a dderbyniwyd gennych dyddiedig 10 Mehefin 2021 trafodir y bwriad i foderneiddio atwrniaethau arhosol a nodir, ar ôl cwblhau'r broses foderneiddio, y bydd defnyddwyr yn gallu cwblhau cais yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rwy'n awyddus i wybod beth yw'r datblygiadau nesaf sydd gennych dan sylw yn dilyn yr ymgynghoriad, i sicrhau eich bod yn cynnwys y Gymraeg yn eich cynlluniau o'r cychwyn. Wrth ddatblygu systemau digidol dwyieithog neu amlieithog, mae'n llawer mwy effeithlon a chost effeithiol cynnwys y gofynion ieithyddol yn y cyfnod cynllunio cychwynol, na cheisio ôl-addasu system uniaith yn ddiweddarach. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi cyngor ar y Gymraeg yng nghyd-destun technoleg gwybodaeth<sup>2</sup> ac mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi ymrwmo i'w ystyried yn ei gynllun iaith:

Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg. (4.5)

Hoffwn dderbyn sicrwydd y byddwch yn cyflwyno'r gwasanaeth diwygiedig yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r egwyddor y mae Swyddfa'r

---

<sup>2</sup> [technoleg-gwefannau-a-meddalwedd-technology-websites-and-software.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi ei mabwysiadu ynghylch trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac yn cyflawni'r ymrwymiad i safonau ansawdd yn y cynllun iaith:

Bydd ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a Saesneg a gynigir o'r un safon, a bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu o fewn yr un amserlen. (2.4)

Byddwch yn ymwybodol bod gennyf y pŵer i ymchwilio i achosion lle mae gen i amheuaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth â chynllun iaith Gymraeg. Er mwyn osgoi cyrraedd sefyllfa o'r fath, byddwn yn falch o gael gwybodaeth bellach gennych yn codi o'm sylwadau ynghylch eich cynlluniau i foderneiddio atwrneiaethau arhosol.

Yr eiddoch yn gywir



Aled Roberts  
**Comisiynydd y Gymraeg**